INSTITUTE of HEALTH EQUITY



# CREU GWENT DECACH: GWELLA TEGWCH IECHYD A'R PENDERFYNYDDION CYMDEITHASOL

**Crynodeb Gweithredol**

Comisiynwyd y Sefydliad Cydraddoldeb Iechyd (IHE) gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) i gefnogi ei waith o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn rhanbarth Gwent, drwy weithredu ar benderfynyddion cymdeithasol iechyd. Mae'r ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd yn disgrifio'r amodau cymdeithasol ac amgylcheddol lle mae pobl yn cael eu geni, yn tyfu, yn byw, yn gweithio ac yn heneiddio, sy'n llywio ac yn sbarduno canlyniadau iechyd.

Mae'r rhan fwyaf o'r ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd y tu allan i'r system gofal iechyd. Er bod gofal iechyd o ansawdd da yn benderfynydd pwysig o ran iechyd, ni fydd gwella iechyd a mynediad at iechyd, ar ei ben ei hun, yn lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae mynd i'r afael â'r ffactorau cymdeithasol yn cynnwys darparu profiadau a gwasanaethau o ansawdd da yn ystod plentyndod cynnar, mewn addysg yn ddiweddarach yn ystod plentyndod a glasoed; cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes; gwaith o ansawdd da sy'n talu'n deg; digon o incwm ar gyfer bywyd iach; tai iach a diogel ac amgylcheddau lleol; lleihau gwahaniaethu a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd(1). Bydd mynd i'r afael â'r holl ffactorau hyn yn creu'r amodau sy'n galluogi pobl i gael rheolaeth dros eu bywydau drwy gydol eu hoes.

Mae'r adroddiad hwn, sy'n seiliedig ar ein dadansoddiad a'n cyfweliadau a'n gweithdai gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid, yn adlewyrchu barn llawer a glywsom yng Ngwent. Fe ddywedoch chi wrthym nad oeddech chi eisiau adroddiad arall yn unig. Roeddech chi eisiau camau gweithredu: yr adnoddau i leihau anghydraddoldebau a sicrhau canlyniadau gwell a chanlyniadau mwy teg.

Mae tystiolaeth amlwg o'r angen i leihau anghydraddoldebau iechyd – maent yn ddiangen ac yn anghyfiawn, yn niweidio unigolion, teuluoedd a chymunedau ac yn rhoi baich ariannol enfawr ar wasanaethau, gan gynnwys y GIG, y Trydydd Sector ac ar yr economi. Mae polisi Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, ond nid yw'r ffocws ar les yn arwain at leihau anghydraddoldebau. Gall Gwent fynd ymhellach a mynd i'r afael yn well ag anghydraddoldebau nad ydynt wedi lleihau, er gwaethaf yr amgylchedd polisi cadarnhaol yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyflwr anghydraddoldebau iechyd yng Ngwent a strategaethau cyfredol i wella'r ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd. Fel y nodwn yn ein hadroddiadau ar ardaloedd lleol eraill yn y DU, mae lleoedd lleol yn aml yn deall eisoes sut i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ond nid ydynt yn gweithredu'r camau angenrheidiol ar y raddfa sydd ei hangen. Weithiau, mae hyn oherwydd diffyg adnoddau, sef y prif rwystr yn aml, ond mae'r adroddiad hwn yn dangos bod ymyrryd i atal problemau yn gost-effeithiol ac yn lleihau'r galw am wasanaethau yn ogystal â bod o fudd i drigolion.

Mae'r adroddiad yn dadansoddi beth fydd yn arwain at y newid a fydd yn galluogi systemau i ganolbwyntio ar degwch mewn iechyd a'r canlyniadau sydd bwysicaf i iechyd. Mae'n awgrymu pryd y mae'n well gweithredu gyda'n gilydd ar lefel Gwent a phryd i weithio mewn ardaloedd lleol. Mae'n darparu tystiolaeth o ble mae angen i Went newid strategaethau, lle gallai Gwent ddarparu ymyriadau wedi'u targedu'n well a lle y dylech fabwysiadu dull gweithredu cyffredinol cymesur.

Mae ein hargymhellion yn ymdrin ag wyth egwyddor Marmot, y prif ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd a chamau gweithredu ar gyfer y system a rhanddeiliaid allweddol yng Ngwent. Mae'r argymhellion wedi'u dosbarthu'n ddau gategori: Blwyddyn 1 (2023-24) a Blynyddoedd 2 i 5 (2024-29). Maent yn herio'r rhanbarth i gymryd camau ar y ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd, datblygu system ranbarthol i fwrw ymlaen â'r camau hyn, cynnwys sectorau eraill fel y Trydydd Sector yn well a chanolbwyntio'n gryfach ar Gwent iachach a mwy teg.

Yn ogystal â'r argymhellion, rydym yn cyflwyno set o ddangosyddion Marmot Gwent ar gyfer tegwch iechyd, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â phartneriaid lleol. Maent yn is-set o ddangosyddion presennol, a byddant yn dangos effaith camau gweithredu lleol ar benderfynyddion cymdeithasol iechyd yng Ngwent.

# Y RHANBARTH

O fewn y pum awdurdod lleol yng Ngwent – Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen – ceir anghydraddoldebau sylweddol o ran lefelau amddifadedd a chyfoeth.

Yng Ngwent mae'r awdurdodau lleol tlotaf a chyfoethocaf yng Nghymru, gydag ardaloedd o amddifadedd dwys a pharhaus, ac ardaloedd llai o amddifadedd wedi'u gwasgaru mewn trefi ac ardaloedd gwledig. Mae Blaenau Gwent, Caerffili, Tor-faen a rhannau o Gasnewydd i gyd yn ardaloedd sydd â lefelau uchel o dlodi ac amddifadedd, ac mae tlodi o genhedlaeth i genhedlaeth yn broblem sylweddol mewn rhai ardaloedd. Mae bron i hanner yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is ym Mlaenau Gwent yn y cwintel mwyaf difreintiedig ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC), yr uchaf o blith pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae gan Gasnewydd a Thorfaen oddeutu traean o'u Hardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y cwintel mwyaf difreintiedig ac mae bron i chwarter poblogaeth Caerffili yn y cwintel mwyaf difreintiedig. Mae pocedi o amddifadedd yn Sir Fynwy, mewn trefi ac ardaloedd trefol, ac mae'r rhain yn galw am set wahanol o ymyriadau i gefnogi'r rheini sy'n byw mewn amddifadedd mewn ardaloedd cymharol gyfoethog, sy'n aml yn mynd 'o dan y radar'.

Mae gan Gymru bwerau deddfwriaethol i fynd i'r afael â llawer o'r ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd – addysg, iechyd, y blynyddoedd cynnar, cymorth cyflogaeth, yr amgylchedd; mae tai a thrafnidiaeth i gyd o fewn maes y llywodraeth ddatganoledig. Ond mae llawer o'r sectorau hyn wedi dioddef toriadau ariannol sylweddol dros flynyddoedd lawer. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio amddiffyn awdurdodau lleol rhag y gwaethaf o bolisïau cyni'r llywodraeth genedlaethol a gostyngiadau mewn buddsoddiadau mewn asedau a gwasanaethau cyhoeddus, mae Cymru wedi gweld toriadau sylweddol sydd wedi arwain at doriadau mewn gwasanaethau a gynigir ac wedi effeithio wedyn ar iechyd ac anghydraddoldebau. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amcangyfrif bod llywodraeth leol yn brin o £784 miliwn yn 2023/24, gan beryglu ei gallu i fodloni rhwymedigaethau statudol a chynnig gwasanaethau o ansawdd da sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor (2). Mewn pedwar o awdurdodau lleol Gwent – Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd a Thorfaen – mae disgwyliad oes naill ai wedi dirywio neu wedi aros yn ei unfan, hyd yn oed cyn y pandemig, ac mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â thoriadau i wasanaethau cyhoeddus a llywodraeth leol, gostyngiadau mewn budd-daliadau, gwaith o ansawdd isel a chyflogau isel.

Mae deddfwriaeth nodedig Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ceisio creu ffordd wahanol o lywodraethu ac mae'n ymrwymo cyrff cyhoeddus yng Nghymru i feddwl yn y tymor hir a chanolbwyntio ar genedlaethau'r dyfodol, gweithio ar y cyd, canolbwyntio ar ffactorau i fyny'r gadwyn ac ataliaeth, ac i gynnwys cymunedau. Un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw "Cymru sy'n fwy cyfartal". Er bod y Ddeddf yn sôn am leihau anghydraddoldebau yn ei chyngor statudol, rhestrir anghydraddoldebau iechyd fel un o'r "heriau cyffredinol" (3). Nid yw'n glir pa effaith y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i chael ar iechyd ac nid yw'n glir ychwaith a yw'r ddeddfwriaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Er bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gwneud gofynion gorfodol i wasanaethau cyhoeddus ystyried effaith polisïau cyfredol, mae tystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn dangos nad yw wedi cael effaith ar anghydraddoldebau eto.



# TYSTIOLAETH

## DISGWYLIAD OES

Yng Ngwent, mae disgwyliad oes cyfartalog yn is na chyfartaledd Cymru ac eithrio yn Sir Fynwy. Rhwng 2017 a 2019, cyn pandemig COVID-19, roedd disgwyliad oes cyfartalog ym mhob un o'r pedwar awdurdod lleol hyn wedi gostwng:

- **Blaenau Gwent.** Roedd disgwyliad oes menywod ar ei uchaf yn 2015-17 ac i ddynion fe gododd ychydig yn 2018-20.
- **Caerffili.** Roedd disgwyliad oes menywod ar ei uchaf yn 2009-11 ac ar gyfer dynion yn 2012-14.
- **Torfaen.** Roedd disgwyliad oes menywod ar ei uchaf rhwng 2015-17 a bu cynnydd bychan yn nisgwyliad oes dynion rhwng 2018 a 20
- **Casnewydd.** Mae disgwyliad oes menywod a dynion wedi gostwng ers 2012-14.
- **Sir Fynwy.** Disgwyliad oes cyfartalog uchaf yng Nghymru.

**Ffigurau 1 a 2. Tueddiadau mewn disgwyliad oes, menywod a dynion, awdurdodau lleol Gwent a Chymru, 2001-2020**




***Ffynhonnell:*** *Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (4)*

Mae disgwyliad oes iach cyfartalog (am ba hyd y gall rhywun ddisgwyl byw mewn iechyd da) hefyd yn is na chyfartaledd Cymru ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd a Thorfaen. Mae disgwyliad oes iach ar gyfartaledd ar gyfer menywod yn Nhorfaen yn 55 oed o'i gymharu â 69 mlynedd i fenywod yn Sir Fynwy. Dynion ym Mlaenau Gwent sydd â'r disgwyliad oes iach gwaethaf yng Ngwent, sy'n byw am 56 mlynedd ar gyfartaledd, o'i gymharu â 69 mlynedd i ddynion yn Sir Fynwy.

Mae archwilio disgwyliad oes iach yn ôl amddifadedd yn dangos tueddiadau sy'n peri pryder yng Ngwent. Mae Tablau 1 a 2 yn dangos bod disgwyliad oes iach ar gyfer y menywod mwyaf difreintiedig ym Mlaenau Gwent rhwng 2011/13 a 2018/20 wedi gostwng wyth mlynedd, chwe blynedd yn Nhorfaen, bum mlynedd yng Nghaerffili, a phedwar mis yng Nghasnewydd. Roedd y gostyngiad mewn disgwyliad oes dynion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn llai dramatig ond yn dal wedi gostwng ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen.

**Tables 1 and 2. Female and male healthy life expectancy at birth in the most deprived areas, Gwent local authorities and Wales, 2011-13 and 2018-20**

| | HLE Menywod 2011-13 | HLE Menywod 2018-20 |
|---|---|---|
| Mlaenau Gwent | **60.4** | **52.5** |
| Caerffili | **52.1** | **47** |
| Sir Fynwy | 58 | 64.6 |
| Casnewydd | **45.4** | **45.1** |
| Thorfaen | **51.7** | **45.3** |
| Cymru | 53 | 53.2 |

| | HLE Dynion 2011-13 | HLE Dynion 2018-20 |
|---|---|---|
| Mlaenau Gwent | **55.8** | **53.3** |
| Caerffili | **53.4** | **51** |
| Sir Fynwy | 60 | 68.1 |
| Casnewydd | 52.6 | 56.9 |
| Thorfaen | **55.5** | **55** |
| Cymru | 53.2 | 54.2 |

***Ffynhonnell:*** *Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (4)*



# Y FFACTORAU CYMDEITHASOL SY'N DYLANWADU AR IECHYD

Mae'r ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd yn cael eu cwmpasu gan wyth egwyddor Marmot, sef y sail ar gyfer y dadansoddiad yn yr adroddiad a'r argymhellion.

1. Rhoi y dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn
2. Galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i fanteisio i'r eithaf ar eu galluoedd a chael rheolaeth dros eu bywydau
3. Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb
4. Sicrhau safon byw iach i bawb
5. Creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy
6. Cryfhau rôl ac effaith atal afiechyd
7. Mynd i'r afael â gwahaniaethu, hiliaeth a'u canlyniadau
8. Mynd ar drywydd cynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch iechyd gyda'n gilydd(5) (1)

## 1. RHOI Y DECHRAU GORAU MEWN BYWYD I BOB PLENTYN

Mae profiadau yn ystod y blynyddoedd cynnar ac mewn addysg yn arbennig o bwysig ar gyfer iechyd yn y tymor byr a'r tymor hwy, ac ar gyfer canlyniadau mewn penderfynyddion cymdeithasol eraill sy'n effeithio ar iechyd yn ddiweddarach mewn bywyd, fel addysg ac incwm(1) (5). Yng Nghymru, y diffiniad o'r blynyddoedd cynnar yw 0-7 oed. Dechrau'n Deg yw'r rhaglen allweddol sy'n cynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar mewn ardaloedd o amddifadedd uchel, a disgwylir iddi gael ei chynnig yn gyffredinol yng Nghymru erbyn 2025. Mae yna brinder staff yn y blynyddoedd cynnar yng Ngwent (ymysg ymwelwyr iechyd, therapyddion iaith a lleferydd, gweithwyr blynyddoedd cynnar a gwarchodwyr plant) sy'n effeithio ar ansawdd y gwasanaeth a gynigir, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd uwch.

Yn 2021, dechreuodd y plant tlotaf yng Nghymru yn yr ysgol 10 mis ar ôl i blant o deuluoedd sydd â mwy o arian(6). Mae Ffigur 3 yn dangos bod Blaenau Gwent yn is na chyfartaledd Cymru o ran nifer y plant saith oed sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2017.

**Ffigur 3. Canran yr holl blant saith oed sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, awdurdodau lleol Gwent a Chymru, 2017**




***Ffynhonnell:** StatsCymru (7)*

Cyflwynwyd cwricwlwm meithrin newydd yn 2022 ond nid yw'n cydnabod effaith incwm na thlodi ar gyrhaeddiad. Yn hytrach, mae'r cwricwlwm yn pwysleisio trin pob plentyn yn gyfartal ac nid yw'n cynnwys uchelgais i leihau anghydraddoldebau o ran cyrhaeddiad. Roedd y Fframwaith Cyfnod Sylfaen blaenorol yn cynnwys y nod "nad yw plant dan anfantais oherwydd unrhyw fath o dlodi"(8). Dylai Ehangu Dechrau'n Deg, sy'n cael ei groesawu fel gwasanaeth cyffredinol a fydd yn lleihau'r loteri cod post a adroddir, a'r cwricwlwm newydd gael eu monitro am effeithiau ar anghydraddoldebau, gan fod cynnig gwasanaeth cyffredinol a thrin pob plentyn yn gyfartal o bosibl yn gallu gwaethygu anghydraddoldebau (1).

## 2. GALLUOGI POB PLENTYN, PERSON IFANC AC OEDOLYN I WNEUD Y GORAU O'U GALLUOEDD

Mae profiadau plentyndod, sy'n parhau i fyd oedolion ifanc, hefyd yn cael effaith gydol oes, gan effeithio ar gyfleoedd cyflogaeth, enillion oes ac iechyd yn ystod y cwrs bywyd. Gostyngodd cyllidebau ysgolion fesul disgybl yng Nghymru 5% rhwng 2009-10 a 2017-18 (gostyngiad llai nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon)(9). Ers 2018-19 (tan 2022–23), mae gwariant fesul disgybl wedi cynyddu 8%, gan ddychwelyd i lefelau 2010(10). Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid hael yn ystod y pandemig – mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn amcangyfrif bod cyfanswm y gwariant sy'n gysylltiedig â COVID ar ysgolion rhwng 2020–21 a 2021–22 yn £800 y disgybl yng Nghymru, yr un fath ag yng Ngogledd Iwerddon ac yn uwch na'r £300 a gynigiwyd yn Lloegr a'r Alban(10).

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu ers 2016/17, ar ôl cyfnod o gwympo neu o aros yn sefydlog. Mae'r bwlch cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru wedi lleihau ar gyfer disgyblion 7-11 oed. Yn 2019, roedd disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi sgorio'n well mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, o'i gymharu â 2010, a hefyd wedi lleihau'r bwlch, er bod ganddynt lefelau cyrhaeddiad is o hyd. Ym Mlwyddyn 11, ar lefel TGAU, mae anghydraddoldebau cyrhaeddiad addysgol eang yn parhau ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent. Mae'r gallu i ddeall anghydraddoldebau lleol yn gyfyngedig i ddadansoddwyr a rhieni, gan nad oes data ar gyrhaeddiad is na'r lefelau cenedlaethol ar gael mwyach.

yn 2022/23, roedd gan y disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ddwbl yr absenoldebau o'i gymharu â disgyblion nad ydynt yn gymwys, bwlch sydd wedi ehangu ers 2021/22.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i gyflwyno 125,000 o brentisiaethau rhwng 2021 a 2026, fel rhan o'i hymrwymiad i sicrhau bod o leiaf 90% o bobl ifanc 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050. Nid yw'n glir pam mae nifer y prentisiaid ar lefelau 2 a 3 (sy'n cyfateb i TGAU a Lefel A yn y drefn honno) wedi gostwng ledled Cymru rhwng 2013/14 a 2021/22, er gwaethaf polisïau'r llywodraeth i gynyddu nifer y prentisiaid, Ffigur 4.

**Ffigur 4. Canran y newid yn nifer y prentisiaethau lefel 2 a lefel 3 a ddechreuwyd, awdurdodau lleol Gwent, Cymru, 2013/14 a 2021/22**




*Ffynhonnell:* *Stats Cymru (11)*

## 3. CREU CYFLOGAETH DEG A GWAITH DA I BAWB.

Mae gwaith o ansawdd da o fudd i iechyd gweithwyr ac yn lleihau anghydraddoldebau, ond mae hefyd o fudd i gyflogwyr, gan fod iechyd da yn cynyddu cynhyrchiant a chadw staff ac yn lleihau faint o dâl salwch sydd ei angen.

Gall busnesau gael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar iechyd drwy arferion cyflogaeth; drwy nwyddau, gwasanaethau a buddsoddiadau; a thrwy eu heffeithiau ar gymunedau a'r amgylcheddau lle mae pobl yn gweithio. Mae lleihau effaith niweidiol busnes a gwella cyfraniad cadarnhaol gwaith yn hanfodol i iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau.

Yng Ngwent, mae potensial mawr i fusnesau wella iechyd eu gweithwyr a'u cymunedau'n ehangach.

Er bod y cyfraddau diweithdra wedi gostwng ar draws Gwent, mae nifer y bobl sy'n economaidd anweithgar ac sy'n chwilio am waith yn datgelu stori wahanol ym mhob awdurdod lleol. Er enghraifft, ym Mlaenau Gwent, bu gostyngiad o 58% yn nifer y bobl sy'n economaidd anweithgar sy'n chwilio am waith rhwng 2010 a 2022, ac yng Nghasnewydd, 17% oedd y gostyngiad, Tabl 3.

**Tabl 3. Canran y bobl economaidd anweithgar sydd eisiau swydd, awdurdodau lleol Gwent a Chymru, 2010 a 2022.**

| | 2010 | 2022 | Gwahaniaeth canran |
|---|---|---|---|
| **Mlaenau Gwent** | 24.8 | 11.3 | -57.9% |
| **Caerffili** | 29.2 | 20.4 | -30.1% |
| **Sir Fynwy** | 24.9 | 13.9 | -44.1% |
| **Casnewydd** | 29.1 | 24.2 | -16.8% |
| **Thorfaen** | 24.8 | 11.3 | -54.4% |
| **Cymru** | 25 | 16.9 | -32.4% |

***Ffynhonnell:*** *Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth – Arolwg o'r Llafurlu (12)*

Siaradodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru â phobl sy'n byw mewn tlodi am sut y dylanwadodd hyn ar eu bywydau. Roeddent yn teimlo bod effaith negyddol tlodi ar iechyd meddwl yn thema gyson. Yn ogystal ag effaith tlodi ar eu hiechyd meddwl, roeddent yn nodi bod y prif rwystrau a oedd ganddynt wrth ddychwelyd i'r gwaith – cyflogau isel, costau gofal plant a theithio uchel a chynnydd yn y dreth gyngor – yn rhwystro pobl sy'n cael budd-daliadau ar hyn o bryd rhag chwilio am waith neu gynyddu eu horiau (13).

Er gwaethaf cyflwyno'r isafswm cyflog a chyflogau byw, mae'r twf mewn cyflogau yn y DU ers 2010 wedi bod yn isel ac mae cyfraddau tlodi mewn gwaith wedi cynyddu. Yng Nghymru, mae 60% o oedolion sy'n byw mewn tlodi yn byw mewn cartrefi lle mae un oedolyn yn gweithio(14). Gostyngodd nifer y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol gydag o leiaf un oedolyn yn gweithio o 32% yn 2010-11 i 28% yn 2018-19, yna i 31% yn 2019-20.

£10.90 yr awr yw'r cyflog byw gwirioneddol yng Nghymru yn 2023. Yn 2021, mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn amcangyfrif petai chwarter y gweithwyr ar gyflogau isel yn y rhanbarth yn symud i fyny i gyflog byw gwirioneddol Cymru, mewn un flwyddyn gallai'r economi ranbarthol dyfu £24 miliwn(15).

Yng Nghymru yn 2021, roedd 82% o weithwyr yn ennill o leiaf y cyflog byw gwirioneddol. Mae gan Sir Fynwy, Caerffili, Torfaen a Blaenau Gwent i gyd gyfartaledd uwch o weithwyr sy'n ennill llai na'r cyflog byw o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, Ffigur 5.

**Ffigur 5. Canran y gweithwyr sy'n ennill llai na'r cyflog byw*, awdurdodau lleol Gwent a Chymru, 2021**




***Nodiadau:*** **Fel y diffinnir gan y Living Wage Foundation, sef £9.50 yn 2021(16).*
***Ffynhonnell:*** *Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (17)*

Mae talu cyflog teg yn un o brif nodweddion y Comisiwn Gwaith Teg, ac mae Llywodraeth Cymru yn "annog pob cyflogwr sy'n gallu fforddio gwneud hynny i sicrhau bod eu gweithwyr yn cael cyfradd tâl yr awr sy'n adlewyrchu costau byw, nid dim ond yr isafswm statudol"(18). Fodd bynnag, mae mater cyflog teg yn tynnu sylw at un o anawsterau datganoli yng Nghymru. Mae rhai o bolisïau Llywodraeth y DU yn gwrth-ddweud y dulliau y mae Llywodraeth Cymru yn dymuno eu mabwysiadu. Y cyflog byw cenedlaethol, a bennir gan lywodraeth y DU, yw £10.42. Yn 2022 fe wnaeth Llywodraeth Cymru warantu'r cyflog byw gwirioneddol, sef £10.90, ar gyfer yr holl weithwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys yr holl weithwyr mewn cartrefi gofal, gweithwyr gofal cartref a chynorthwywyr personol(19). Mae cyflog byw cenedlaethol y DU yn dal yn is na chyflog byw gwirioneddol Cymru, felly mae effaith polisïau mwy blaengar a theg Llywodraeth Cymru yn cael eu cyfyngu gan eu gallu i ddylanwadu ar gyflogau cyfran fach o swyddi yng Nghymru.

Yng Ngwent, nid yw'r Bwrdd Iechyd na'r pum awdurdod lleol yn gyflogwyr cyflog byw gwirioneddol achrededig, er y bydd llawer yn talu'r cyflog byw gwirioneddol i'w gweithwyr oherwydd polisïau Llywodraeth Cymru ar gyflogau ar gyfer gofal cymdeithasol.

## 4. SICRHAU SAFON BYW IACH I BAWB

Mae tlodi'n niweidio iechyd mewn sawl ffordd, o leihau mynediad at fwyd iach a maethlon a thai o ansawdd da, digon cynnes, i gyfyngu ar gyfleoedd i ymgysylltu'n llawn â chymdeithas, i achosi straen ffisiolegol yn uniongyrchol a niweidio iechyd corfforol. Mae oddeutu un o bob pedwar person yng Nghymru yn byw mewn tlodi ac mae cyfraddau tlodi wedi aros yn gymharol sefydlog ar tua'r lefel hon ers dros 15 mlynedd. Canfu Ciplun o Dlodi Sefydliad Bevan yn ystod gaeaf 2023 fod 14% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod naill ai weithiau, yn aml neu bob amser ddim yn cael digon ar gyfer yr hanfodion i gyd a bod gan 33% incwm ar gyfer yr hanfodion a dim llawer arall(20). Roedd 34% o blant yn byw mewn tlodi, ar ôl costau tai yn 2020/21(21).

Prin fu'r cynnydd o ran lleihau tlodi plant yng Nghymru. Cafodd tueddiadau cadarnhaol cymedrol cyn 2015 eu gwrthdroi a dechreuodd tlodi plant godi cyn y pandemig, o ganlyniad i ddiwygiadau treth a lles llywodraeth y DU, Ffigur 6 (22).

**Ffigur 6. Canran y plant mewn tlodi, ar ôl costau tai, awdurdodau lleol Gwent a Chymru, 2014/15-2020/21**




***Ffynhonnell:*** *Prifysgol Loughborough (23)*

Daeth y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol i'r casgliad bod angen "dull gweithredu mwy radical" ar y strategaeth tlodi plant yng Nghymru(6). Mae angen i'r Strategaeth Tlodi Plant nesaf ganolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau a thargedu camau gweithredu a rhaglenni'n well mewn ardaloedd o amddifadedd uwch.

Mae'r ystadegau tlodi tanwydd diweddaraf ar gyfer Cymru ar gael o 2018 ymlaen. Yn 2022 roedd Llywodraeth Cymru wedi modelu amcangyfrifon o'r ystadegau tlodi tanwydd ar gyfer 2021, yn fwy diweddar nag ystadegau'r DU, ond mae'n dal yn hen o ystyried y cynnydd sylweddol mewn costau tanwydd yn 2022. Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru bryd hynny fod hyd at 45% o holl aelwydydd Cymru mewn tlodi tanwydd, yn dilyn y cynnydd yn y cap prisiau ym mis Ebrill 2022. Amcangyfrifwyd bod 98% o aelwydydd incwm is Cymru mewn tlodi tanwydd yn 2022(24).

## 5. CREU A DATBLYGU LLEOEDD A CHYMUNEDAU IACH A CHYNALIADWY

Mae cartrefi a chymdogaethau iach a chynaliadwy yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol da drwy alluogi ac annog bywydau iach, egnïol a chymdeithasol. Cefnogir iechyd meddwl a chorfforol da gan dai a lleoedd iach a chynaliadwy, a nodweddir gan dai o ansawdd da, mynediad at fannau gwyrdd diogel, aer glân, cyfleoedd ar gyfer teithio llesol ac amrywiaeth o fwynderau ac adnoddau cymunedol, gan gynnwys cludiant cyhoeddus dibynadwy a theg.

Mae tai, a chartrefi oer yn benodol, yn benderfynydd cymdeithasol pwysig o ran iechyd. Yn 2021, cyn y cynnydd mewn prisiau ynni, canfu Shelter Cymru yng Nghymru:

- All 16% ddim cadw eu cartref yn gynnes yn y gaeaf.
- Roedd 13% yn byw mewn cartrefi nad ydynt yn strwythurol gadarn neu sydd â pheryglon fel gwifrau diffygiol neu risgiau tân.
- Dywedodd 26% eu bod yn byw mewn cartrefi gyda phroblemau sylweddol o ran lleithder, llwydni neu anwedd.
- Dywedodd 1 o bob 10 o bobl fod eu sefyllfa o ran tai yn niweidio eu hiechyd meddwl eu hunain neu iechyd meddwl eu teulu(25).

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod tai o ansawdd gwael yn costio dros £95 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru o ran costau triniaethau, ac y gallai uwchraddio cartrefi arwain at 39% yn llai o dderbyniadau i'r ysbyty yn achos cyflyrau cylchrediad a'r ysgyfaint(26).

Mae cymdeithasau tai yn darparu nifer o wasanaethau i wella'r ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd ac maent yn bartneriaid allweddol o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, Blwch 1.

## Blwch 1. Partneriaid allweddol i wella tai a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau

Mae cymdeithasau tai cymdeithasol yn bartneriaid allweddol o ran lleihau anghydraddoldebau a gwella iechyd a lles. Mae staff cymdeithasau tai yn ymweld â'u preswylwyr yn rheolaidd ac mae ganddynt ddiddordeb personol mewn darparu tai o safon. Yng Ngwent, mae cymdeithasau tai yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth – ariannol, digidol ac iechyd, gan weithredu'n gynnar a chanfod problemau'n gynnar.

Mae **Melin Homes** yn darparu cartrefi a gwasanaethau i bobl sy'n byw yn Ne-ddwyrain Cymru(27). Mae ei dîm o gynghorwyr yn helpu preswylwyr i wneud cais am grantiau costau byw, taliadau a gostyngiadau ac mae'n darparu cymorth gyda chyllidebu ac arbed arian.

Mae **Tai Sir Fynwy** yn darparu cymorth ychwanegol i denantiaid drwy amrywiaeth o wasanaethau ariannol ac iechyd, cronfa galedi, cefnogaeth banc bwyd a chlybiau bwyd, cyngor ar arian a budd-daliadau drwy eu gwasanaeth Moneywise, cyllid ar gyfer addasiadau i gartrefi, a chymorth gyda phrosesau dyrannu tai.

Mae **Grŵp Pobl** yn cynnig gwasanaethau gofal a chymorth i denantiaid ledled Cymru. Mae ei dimau'n darparu cyngor ar fudd-daliadau a chostau byw, yn cysylltu cwsmeriaid â'u cymuned leol a'u gwasanaethau, ac yn cefnogi eu cwsmeriaid mwyaf agored i niwed drwy uwchraddio ynni wedi'i dargedu i'r cartrefi oeraf sy'n gartref i'r cwsmeriaid mwyaf bregus yn ariannol.

Mae costau tai yng Ngwent, fel yn y DU, wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mewn un flwyddyn, 2022-23, cynyddodd rhenti misol fwy na 7% ar draws Gwent. Er enghraifft, yng Nghasnewydd cododd rhent misol o £626 y mis (ar gyfartaledd) i £823, cynnydd o 10.6% mewn blwyddyn, yng Nghaerffili a Blaenau Gwent gwelwyd cynnydd o 8% a 7% yn Nhor-faen a Sir Fynwy(28).

Trafnidiaeth yw'r ffynhonnell fwyaf o lygredd aer yn y DU ac mae trafnidiaeth yn cyfrif am 15% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru(29). Mae'r adroddiad Dyfodol Ffyrdd yng Nghymru yn cydnabod rhyng-gysylltiad newid yn yr hinsawdd, datblygu economaidd a thrafnidiaeth ac yn nodi effaith "dylai iechyd y cyhoedd gael ei ystyried a'i adrodd"(30). Fodd bynnag, mae ei bwyslais ar deithio ar y rheilffyrdd yn niweidiol i lawer o ardaloedd o amddifadedd uchel nad oes ganddynt fynediad uniongyrchol at wasanaethau rheilffyrdd. Mae'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uwch yn fwy tebygol o fynd ar fysiau gan eu bod yn fwy fforddiadwy(31). Mae Ffigur 7 yn dangos bod y rheini sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uwch yn fwy tebygol o ddefnyddio bysiau gan eu bod yn fwy fforddiadwy.

**Ffigur 7. Canran y defnydd o fysiau yn ystod y 12 mis diwethaf*, yn ôl cwintel MALIC, Cymru, 2019/20**




***Nodiadau:*** *Cwestiwn a ofynnwyd: 'Yn ystod y 12 mis diwethaf, pa mor aml ydych chi wedi defnyddio gwasanaethau bysiau yng Nghymru?'.*
***Ffynhonnell:*** *Arolwg Cenedlaethol Cymru (31)*

Os caiff cymunedau mewn ardaloedd mwy difreintiedig, sy'n dibynnu ar fysiau, eu gadael allan o fuddsoddiad trafnidiaeth gyhoeddus yn awr ac yn y dyfodol, yna mae anghydraddoldebau'n debygol o gynyddu yn y tymor byr a'r tymor hir.

## 6. CRYFHAU RÔL AC EFFAITH ATAL AFIECHYD

Mae edrych ar iechyd fel penderfynyddion cymdeithasol yn golygu deall pam fod pobl yn gwneud beth, o'r tu allan, sy'n ymddangos yn benderfyniadau gwael am eu bywydau a'u hiechyd. Yn rhy aml, mae dulliau ataliol o ymdrin â salwch yn canolbwyntio ar ymddygiadau unigol ac yn ceisio addysgu pobl i wneud dewisiadau gwell er mwyn gwella eu hiechyd. Mae symud at ddull penderfynyddion cymdeithasol o ran iechyd yn golygu gweithredu ar yr hyn sy'n sbarduno iechyd gwael yn ogystal â thrin afiechyd pan gaiff ei gyflwyno mewn lleoliadau gofal iechyd: rhaid i'r agenda atal ganolbwyntio ar wella amodau byw a gweithio a lleihau tlodi – yn ogystal â chanolbwyntio ar ymddygiad iach. Fel y nodir yn yr adroddiad, mae bron yn amhosibl byw'n iach mewn tlodi. Byddai'n rhaid i deuluoedd sydd â'r 10% isaf o incwm aelwydydd wario bron i dri chwarter eu hincwm cyfan (ar ôl costau tai) i fforddio'r plât Bwyta'n Iach y GIG (Lloegr) a argymhellir(32).

Mae rôl y sector gofal iechyd o ran mabwysiadu camau atal yn ganolog i Cymru Iachach, sy'n ceisio symud o newid ymddygiad a dulliau gweithredu unigol, fel clinigau rhoi'r gorau i ysmygu, i "gan ganolbwyntio mwy ar atal ac ymyriadau cynnar rydyn ni'n parhau i'w cefnogi drwy gymorth cyffredinol, yn ogystal â chymorth wedi'i dargedu'n well" (33).

Mae 45% o ddynion a 34% o ferched yn yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir ac mae nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn uwch yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru(34). Nid yw ystadegau camddefnyddio alcohol a chyffuriau islaw lefelau cenedlaethol, neu yn ôl amddifadedd, ar gael i'r cyhoedd. Argymhellir bod yr ystadegau hyn yn cael eu cyhoeddi a'u rhannu â thimau gofal sylfaenol ac eilaidd, timau iechyd y cyhoedd ac iechyd meddwl a'r Trydydd Sector. Mae'r Tîm Gofal Alcohol yn y Grange yn cydweithio â thimau yn y GIG a thu hwnt i gefnogi'n well y rhai y mae angen cymorth cyffuriau alcohol arnynt yng Ngwent, sy'n golygu canfod clefyd yn ei gyfnodau cynnar ac ymyrryd cyn i symptomau llawn ddatblygu, Blwch 2.

### Blwch 2. Atal yn gynnar yn y Faenor

Mae'r Tîm Gofal Alcohol yn Uned Afu Gwent wedi sefydlu menter gydweithredol leol sy'n cynnwys iechyd y cyhoedd, meddygon teulu, gweithwyr proffesiynol ym maes camddefnyddio sylweddau a rhanddeiliaid allweddol o ddarparwyr cymorth cyffuriau ac alcohol y Trydydd Sector. Credai'r Tîm Gofal Alcohol fod angen gwasanaethau cymorth alcohol gwell yng Nghymru a bod prosiectau blaenorol yn y gymuned yn methu ag adnabod cleifion yn yr ysbyty – naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol oherwydd eu problemau alcohol.

Gyda rownd gychwynnol o gyllid, penododd y tîm ddwy nyrs i ddarparu cefnogaeth i unrhyw glaf a oedd yn y Faenor gyda phroblem alcohol. Mae'r tîm yn canolbwyntio gwaith 'yn bendant iawn, iawn', gyda staff drws ffrynt a chysylltiadau â staff ar draws y Faenor, gan gynnwys staff ambiwlans, i asesu a oes potensial ar gyfer ymyriad alcohol.

Yn ogystal â gwasanaethau mewn ysbytai, mae'r tîm yn ymateb i anghenion yn y cymunedau eu hunain. Cynhelir clinigau cleifion allanol yn wythnosol yng Nglynebwy, Caerffili, Torfaen a Chasnewydd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhedeg grŵp adfer yn yr ysbyty sirol ac mae wrthi'n dod o hyd i gyllid ar gyfer cludiant er mwyn galluogi pobl i fynychu – mae wedi nodi bod cleifion wedi cael trafferth teithio i'r ysbyty: nid yw cleifion "yn gallu'n cyrraedd ni. Maen nhw'n dweud 'Alla i ddim, does gen i ddim yr arian neu does gen i ddim yr adnoddau i allu gwneud hynny". Penderfynodd y tîm "mae angen i ni feddwl yn wahanol" ac rydym yn ystyried rhoi cymhorthdal ar gyfer teithio i glinigau.

Mae'r tîm yn awyddus i ddeall pam nad yw pobl yn mynychu, "Dydyn ni erioed wedi mynd i'r afael â DNA ym maes iechyd. Dylem fod yn galw ar bob un DNA, 'ni ddaethoch chi'. Allwn ni ganfod pam nad ydynt yn trafferth?" Mae'n bwriadu sefydlu clinigau gofal sylfaenol yn 2023, i fynd allan i glystyrau gofal sylfaenol ac mae'n ystyried grwpiau mewn canolfannau hamdden a chymunedol.

## 7. MYND I'R AFAEL Â GWAHANIAETHU, HILIAETH A'U CANLYNIADAU

Mae hiliaeth strwythurol a systemig yn cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd, ac mae y tu ôl i lawer o anghydraddoldebau ethnig yn y penderfynyddion cymdeithasol. Mae profi hiliaeth hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd meddwl a chorfforol. Mae grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn aml yn profi canlyniadau gwaeth o ran y penderfynyddion cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd, fel incwm, ansawdd cyflogaeth ac amodau tai, sy'n ymwneud â phrofiadau o wahaniaethu ac allgáu. Yn y DU, mae poblogaethau lleiafrifoedd ethnig 2.2 gwaith yn fwy tebygol ar hyn o bryd na phoblogaethau Gwyn o fod mewn tlodi difrifol, gan brofi lefelau eithafol o galedi sy'n golygu eu bod yn ei chael yn anodd fforddio hanfodion bob dydd fel bwyd ac ynni(35).

Ym mis Ionawr 2023 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol(36). Un o'r camau blaenoriaeth yn y cynllun uchelgeisiol hwn yw sefydlu gweithgor anghydraddoldebau iechyd a gwella data i ddeall

anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig ag ethnigrwydd(36). Roedd y niferoedd a gafodd frechlyn COVID-19 yn ôl ethnigrwydd yn dangos anghydraddoldebau clir, gyda 32% o grwpiau poblogaeth Du yn cael dos atgyfnerthu hydref 2022 o'i gymharu â 63% o'r boblogaeth Wyn. Yn yr ystadegyn hwn, roedd gan 10% o'r ymatebion ethnigrwydd 'anhysbys'(37). Mae'r data gwael hwn yn peryglu gallu systemau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y ffordd orau a rhaid gwella cofnodi ethnigrwydd yn y GIG.

## 8. MYND AR DRYWYDD CYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL A THEGWCH IECHYD GYDA'N GILYDD

Wrth i'r hinsawdd gynhesu ac wrth i nifer yr achosion o dywydd eithafol gynyddu, bydd niwed i iechyd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd hefyd yn cynyddu ac, yn y dyfodol, bydd yn effeithio ar y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig(38). Yn 2022, fe wnaeth tywydd eithafol, ar ffurf tywydd poeth, daro Gwent ym mis Gorffennaf ac Awst. Cafodd y tymheredd uchaf a gofnodwyd yng Nghymru ei gofnodi ym mis Gorffennaf 2022. Cafodd y tymereddau uchel hyn effeithiau sylweddol yng Ngwent: adroddodd Gwasanaeth Ambiwlans Cymru am fwy o alwadau a chafodd Gwasanaeth Tân Gwent ei ddiwrnod prysuraf ers yr Ail Ryfel Byd.

Bydd llawer o'r camau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr hefyd yn gwella iechyd fel cyd-fantais ac yn lleihau'r anghydraddoldebau iechyd presennol, er enghraifft, drwy wella ansawdd aer lleol. Mae Cynllun Strategol Sero Net Cymru yn amlinellu'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2030(39). Mae'n bwysig canolbwyntio ar degwch wrth gyflawni'r cynllun, yn ogystal â chanolbwyntio ar leihau niwed a lliniaru, fel nad yw ymyriadau a pholisïau i leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cynyddu anghydraddoldebau yn anfwriadol. Mae lleihau'r defnydd o geir a newid i drafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol neu geir trydan yn fuddiol er mwyn lleihau llygredd aer ac allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod amlygiad tymor hir i lygredd aer yn gysylltiedig â 1,000 i 1,400 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghymru ac mae'n amcangyfrif bod y gost i gymdeithas yng Nghymru o ganlyniad i lygredd aer oddeutu £1 biliwn y flwyddyn(40) (41). Mae'r crynodiadau o lygredd ym Mlaenau Gwent yn is na chyfartaleddau Cymru, ond i'r pedwar awdurdod lleol arall, mae ansawdd yr aer yn cyfateb i neu ychydig yn waeth na chyfartaledd Cymru.

Mae cynlluniau wedi bod ar y gweill ers tro i gynyddu teithio llesol yng Nghymru, ond mae'r cyfraddau beicio'n dal yn isel ac mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos gostyngiad mewn cerdded. Yn 2021, roedd 23% o bobl yng Nghymru yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos at ddibenion teithio llesol a 51% yn cerdded, gostyngiad o 9% mewn blwyddyn. Mae cyfraddau cerdded i'r ysgol gynradd yn cynyddu'n araf ond nid yw'r cyfraddau cerdded i'r ysgol uwchradd wedi newid ers 2016/17(31). Nid oes yr un o'r ystadegau hyn ar gael o dan y lefel genedlaethol ac nid ydynt wedi'u dadgyfuno yn ôl amddifadedd nac incwm.



# NEWID SYSTEMAU AR GYFER TEGWCH IECHYD YNG NGWENT

Mae lleihau anghydraddoldebau iechyd yn gofyn am ddatblygu adnoddau ac ymyriadau effeithiol ymysg amrywiaeth o sectorau gwahanol sy'n cael effaith ar iechyd. Er mwyn cyflawni'r newidiadau angenrheidiol, mae angen system tegwch iechyd effeithiol. Mae elfennau hanfodol i ddatblygu system tegwch iechyd effeithiol yn cynnwys arweinyddiaeth, partneriaethau, cyd-greu, cyllid a data.

## ARWEINYDDIAETH

Mae arweinyddiaeth gref ar degwch iechyd yn hanfodol ar gyfer gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd ac mae angen cryfhau hynny yng Ngwent ac ym mhob awdurdod lleol ac o fewn y GIG. Mae arweinyddiaeth effeithiol yn gofyn am ymrwymiad i degwch ym mhob polisi, adnoddau sy'n canolbwyntio ar degwch, datblygu gweithlu sydd ag arbenigedd mewn datblygu a darparu rhaglenni i gefnogi mwy o degwch ac atebolrwydd sefydliadol cryf ac atebolrwydd uwch arweinwyr ar gyfer tegwch iechyd.

Mae strategaethau a pholisïau cenedlaethol yng Nghymru wedi rhoi blaenoriaeth i wella lles, ac mae lleihau anghydraddoldebau iechyd yn cael ei weld fel ffocws eilaidd. Mae gwella lles yn wahanol i leihau anghydraddoldebau – mae angen i strategaethau cenedlaethol leihau anghydraddoldebau yn benodol.

## PARTNERIAETHAU

Mae lleihau anghydraddoldebau iechyd yn gofyn am bartneriaethau cadarn rhwng sectorau a sefydliadau sy'n cael effaith ar iechyd. Mae nifer o bartneriaethau eisoes yn bodoli, megis drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y gallu i leihau anghydraddoldebau iechyd os bydd ei ffocws yn newid o wella llesiant i wella tegwch iechyd.

Mae'r Trydydd Sector yn ymwneud â'r partneriaethau statudol hyn ac eto nid ydynt yn cael eu hystyried yn aml fel partneriaid cyfartal mewn gwaith ar anghydraddoldebau iechyd. Dylai'r Trydydd Sector gael ei gynnwys ar y lefel uchaf, i harneisio ei egni, ei wybodaeth a'i sgiliau ac fel cynrychiolwyr cymunedau. Yn ogystal, dylai addysg (cynradd, uwchradd ac addysg bellach) a busnesau a'r sector economaidd gymryd mwy o ran mewn strategaethau a gweithredu anghydraddoldebau.

## CYD-GREU

Dylai cymunedau a'r Trydydd Sector chwarae mwy o ran fel partneriaid hanfodol yn y gwaith o nodi blaenoriaethau, datblygu strategaethau a chyflwyno rhaglenni i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Dylai cynnwys cymunedau, y Trydydd Sector a phobl â phrofiad bywyd fod wrth galon y dull o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Mae dulliau sy'n seiliedig ar asedau, fel dull seiliedig ar asedau sy'n cael ei arwain gan ddinasyddion ar gyfer gofal iechyd ac anghydraddoldebau, yn cydweithio ar draws gwahanol sectorau a disgyblaethau i greu atebion i fynd i'r afael ag annhegwch ac anghydraddoldebau. Yn Sir Fynwy, dywedodd gweithiwr datblygu cymunedol fod eu dull gweithredu yn "seiliedig ar asedau ac yn adeiladu ar yr hyn sydd ar gael (mewn cymunedau)". Maen nhw'n "gwneud gyda, ddim yn gwneud i" ac nid ydyn nhw'n "mynd i gymunedau a dweud wrthyn nhw beth i'w wneud".

## ARIANNU

Dros y 13 mlynedd diwethaf, mae toriadau i wariant awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus wedi niweidio iechyd ac wedi ehangu anghydraddoldebau. Mae polisïau a strategaethau'r Llywodraeth yn pwysleisio pwysigrwydd atal ond mae gwariant yn parhau i flaenoriaethu argyfyngau difrifol. Dylai cyllid a gweithgareddau atal gael eu nodi'n well a'u cynyddu.

Dylai Cymru fod yn gweithio gyda chylchoedd cynllunio tymor hwy, fel yr argymhellir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ond eto ar ôl saith mlynedd o'r Ddeddf, nid dyma'r norm o hyd. Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru a'r GIG yn dal yn bennaf am un, dwy neu dair blynedd, gyda photiau'n cael eu cynnig tua diwedd y flwyddyn ariannol, i'w gwario'n aml yn y tymor byr. Hyd nes y bydd y cylchoedd cyllido hyn yn newid, mae cynllunio tymor hwy yn amhosibl. Mae'r ffactorau cymdeithasol sy'n pennu iechyd yn ganolog i dri maes blaenoriaeth Cyllid Ffyniant Cyffredin. Mae'n hanfodol bod y cyllid hwn a chyllid Ffyniant Bro yn cael eu monitro a'u dadansoddi i ganfod yr effaith ar anghydraddoldebau iechyd.

## DATA

Mae angen data cadarn, amserol, dibynadwy a phriodol wedi'u dadgyfuno i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gwella'r penderfynyddion cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd. Mae gan Gymru ddigonedd o ddata ar ganlyniadau iechyd, ond mae yna gyfyngiadau ar argaeledd data ar lefel ddaearyddol ddigon bach neu wedi'i ddadgyfuno, sy'n gallu cofnodi anghydraddoldebau o fewn awdurdodau lleol. Mae data ar ethnigrwydd yn brin mewn llawer o ganlyniadau iechyd ac mewn penderfynyddion cymdeithasol allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd. Mae'n hanfodol bod cyrff y GIG a gwasanaethau eraill yn casglu data am ethnigrwydd yn rheolaidd i bennu lle mae anghydraddoldebau'n bodoli, gan gynnwys o ran mynediad at wasanaethau, er mwyn galluogi cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau i leihau gwahaniaethu ac anghydraddoldebau.

Mae angen cryfhau atebolrwydd dros degwch iechyd yng Ngwent, ar sail set gadarn o ddangosyddion, fel sydd wedi cael ei greu, ac mae angen gwella'r defnydd o setiau data cysylltiedig ac a rennir.

## RHANDDEILIAID AR GYFER CYDRADDOLDEB IECHYD

Mae'r partneriaid a'r rhanddeiliaid allweddol yng Ngwent – y sector cyhoeddus, busnesau, sefydliadau gofal iechyd a'r Trydydd Sector a chymunedau – yn allweddol i sicrhau cydweithio ac arweinyddiaeth systematig.

## Y SECTOR CYHOEDDUS A'R TRYDYDD SECTOR

Nid dim ond pryder i iechyd y cyhoedd a gofal iechyd yw tegwch iechyd: gall pob gwasanaeth cyhoeddus chwarae rhan yn y gwaith o wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae hyn yn gofyn am gydlynu a gweithio mewn partneriaeth. Dylai gwarant gwasanaeth cyhoeddus sylfaenol gynnig gwasanaeth sylfaenol cyson yng Ngwent, yna gwasanaeth wedi'i adeiladu a'i ymestyn yn gymesur â'r angen. Mae gan wasanaethau cyhoeddus hefyd rôl i'w chwarae o ran mabwysiadu dull sefydliad angor. Mae sefydliadau angor yn sefydliadau fel ysbytai, prifysgolion a chynghorau sydd wedi'u gwreiddio'n ffisegol mewn cymunedau ac sy'n gallu siapio iechyd a lles y boblogaeth leol yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Gallant ddefnyddio eu safle fel cyflogwyr, prynwyr nwyddau a gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau, perchnogion adeiladau lleol, tir ac asedau eraill ac fel arweinwyr yn y gymuned i greu newid.

Mae partneriaid eraill yn y sector cyhoeddus hefyd yn allweddol i sicrhau Gwent decach, gan gynnwys addysg, timau cynllunio ac adfywio, cludiant cyhoeddus a'r heddlu.

## BUSNESAU

Mae busnesau'n effeithio ar iechyd eu gweithlu ac maent yn ysgogwyr sylweddol o ran iechyd ac anghydraddoldebau iechyd. Mae Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi Cymru yn nodi gweledigaeth y genedl ar gyfer twf cynhwysol sy'n seiliedig ar sylfeini cadarn, ac yn cefnogi'r ddau nod o dyfu'r economi a lleihau anghydraddoldeb(43).

Mae'n hanfodol bod PSB Gwent a phartneriaid allweddol eraill sy'n cyflawni'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn gweithio gyda'r sector preifat i wella amodau gwaith, gan fod y rhan fwyaf o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector preifat yng Ngwent. Gall busnesau a chyflogwyr yn y sector cyhoeddus helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd drwy ddarparu cyflogaeth o ansawdd da a recriwtio teg; darparu cynnyrch, gwasanaethau a buddsoddiadau iach; a dylanwadu ar gymunedau a gweithio mewn partneriaeth â nhw.

## GIG

Dylai tegwch iechyd a'r penderfynyddion cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd fod yn bryder canolog i ddarparwyr gofal iechyd a'r system gofal iechyd gyfan. Gall Ymddiriedolaeth Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gryfhau ei chamau gweithredu ar y penderfynyddion cymdeithasol, gan ymestyn gweithgarwch y tu hwnt i'r dull angori arferol i gydweithio'n agos â llywodraeth leol, gwasanaethau cyhoeddus, y Trydydd Sector a chyflogwyr. Mae achos ariannol yn ogystal â moesol dros y GIG i leihau anghydraddoldebau iechyd. Mae gan ardaloedd â mwy o amddifadedd anghenion gofal iechyd uwch, ac o ganlyniad, costau gofal iechyd uwch.

Mae nifer o swyddi gwag mewn meddygfeydd mewn ardaloedd o amddifadedd uwch. Dylid rhoi blaenoriaeth i gamau gweithredu i gynyddu nifer y meddygon teulu yn yr ardaloedd hyn. Dylai'r cyllid ar gyfer meddygon teulu gael ei bwysoli a'i addasu i adlewyrchu'r angen. Mae'r dull sefydliad angor, a ddatblygwyd mewn sefydliadau gofal iechyd, yn fodel da i wasanaethau cyhoeddus gefnogi mwy o degwch ym mhenderfynyddion cymdeithasol iechyd a lleihau amddifadedd mewn ardaloedd lleol.

Mae'r adroddiad llawn yn cynnwys sail resymegol i'r argymhellion yn ogystal â dangosyddion Marmot ar gyfer Gwent.

**Mae'r adroddiad terfynol yn cynnwys y set olaf o argymhellion a dangosyddion Marmot ar gyfer Gwent.**

## LLYFRYDDIAETH


1. Marmot M, Allen J, Boyce T, Goldblatt P, Morrison J (2020) Health Equity in England: The Marmot Review ten years on. Institute of Health Equity. Available from: . https://www.instituteofhealthequity.org/about-us/the-institute-of-health-equity/our-current-work/collaborating-with-the-health-foundation-.

2. Welsh Local Government Association (2022) Hopeful of continuation of Welsh Government's commitment to local services. Available from: https://www.wlga.wales/hopeful-of-continuation-of-welsh-government%e2%80%99s-commitment-to-local-services.

3. Welsh Government (2017) Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. Available from: https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/WFGAct-English.pdf.

4. ONS (2021) Life expectancy estimates, all ages, UK. Available from: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/datasets/lifeexpectancyestimatesallagesuk.

5. Marmot M, Allen J, Goldblatt P, Boyce T, McNeish D, Grady M. (2010) Fair Society, Healthy Lives: The Marmot Review. Institute of Health Equity. Available from: . https://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/fair-society-healthy-lives-the-marmot-review.

6. Social Mobility Commission (2021) State of the nation 2021: Social mobility and the pandemic. Available from: https://www.gov.uk/government/publications/state-of-the-nation-2021-social-mobility-and-the-pandemic.

7. InfoBaseCymru (2017) Pupil attainment. Available from: https://www.infobasecymru.net/IAS/themes/children,youngpeopleandeducation/compulsoryeducation/tabular?viewId=29&geoId=1&subsetId=.

8. Welsh Government (2015) Foundation Phase Framework. Available from: https://hwb.gov.wales/storage/d5d8e39c-b534-40cb-a3f5-7e2e126d8077/foundation-phase-framework.pdf.

9. Sibieta L (2019) School spending in Wales. Available from: https://sibietaeconed.files.wordpress.com/2019/04/school-spending-in-wales-090419-2.pdf.

10. Sibieta L (2023) How does school spending per pupil differ across the UK? Institute for Fiscal Studies. Available from: https://ifs.org.uk/publications/how-does-school-spending-pupil-differ-across-uk.

11. StatsWales (2023) Further Education, Work-based Learning and Adult Learning in Wales, 2021/22. Available from: https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2023-02/further-education-work-based-learning-and-community-learning-august-2021-july-2022-670.pdf.

12. ONS (2023) Annual Population Survey. Available from: https://www.nomisweb.co.uk/.

13. Roberts M (2022) Lived experience of poverty and social exclusion in Wales. Wales Centre for Public Policy. . Available from:https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2022/09/WCPP-Lived-experience-of-poverty-and-social-exclusion-in-Wales-September-2022-English-final.pdf.

14. Bevan Foundation (2018) Making work a route out of poverty. Available from: https://www.bevanfoundation.org/views/making-work-a-route-out-of-poverty/.

15. Cardiff Capital Region (2021) State of the Region, Part 3: Resilient.Available from: https://www.cardiffcapitalregion.wales/wp-content/uploads/2020/12/ccr-state-of-the-region-part-3-resilient-con-1-3-compressed.pdf.

16. Living Wage Foundation (2022) Homepage. Available from: https://www.livingwage.org.uk/what-real-living-wage.

17. ONS (2021) Annual Survey of Hours and Earnings (ASHE) – Estimates of the number and proportion of employee jobs with hourly pay below the living wage. Available from. https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/adhocs/13855annualsurveyofhoursandearningsasheestimatesofthenumberandproportionofemployeejobswithhourlypaybelowthelivingwagebyworkgeographylocalauthorityandparliamentary.

18. Welsh Government (2023) National Living Wage and National Minimum Wage rates for 2023.Available from: https://businesswales.gov.wales/news-and-blogs/news/national-living-wage-and-national-minimum-wage-rates-2023.

19. Welsh Government (2022) Welsh Government Draft Budget 2023-24. . Available from: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-12/2023-2024-draft-budget-narrative-v1.pdf#page=4.

20. The Bevan Foundation (2023) Snapshot of Poverty. A snapshot of poverty in winter 2023. Available from: https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2023/02/Snapshot-of-poverty-in-winter-2023.pdf.

21. Stone J (2022) Local indicators of child poverty after housing costs, 2020/21. Centre for Research in Social Policy. Available from: https://endchildpoverty.org.uk/wp-content/uploads/2022/07/Local-child-poverty-indicators-report-2022_FINAL.pdf.

22. Equalities and Human Rights Commission (2018) Is Wales fairer 2018? Available from: https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/wales-fairer-2018.

23. End Child Poverty (2023) Available from: https://endchildpoverty.org.uk/child-poverty/.

24. NEA (2023) Fuel Poverty in Wales. Available from: https://www.nea.org.uk/fuel-poverty-map/fuel-poverty-in-wales/ .

25. ITV News (2021) 'Shocking' new figures demonstrate scale of housing crisis in Wales amidst calls for immediate Welsh Government action. Available from: https://www.itv.com/news/wales/2021-05-26/shocking-new-figures-demonstrate-scale-of-housing-crisis-in-wales-amidst-calls-for-immediate-welsh-government-action.

26. Watson I, MacKenzie F, Woodfine L, Azam S (2019). Making a Difference. Housing and Health: A Case for Investment.Public Health Wales. Available from: https://phw.nhs.wales/files/housing-and-health-reports/a-case-for-investment-report/.

27. Melin Homes (2023) Available from: https://www.melinhomes.co.uk/.

28. BBC (2023) Rent prices: How much have they gone up in your area? Available from: https://www.bbc.co.uk/news/business-65103937.

29. Welsh Government (2023) 2020 Wales Greenhouse Gas Emissions. Available from: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-02/greenhouse-gas-emissions-infographic-2020.pdf.

30. Welsh Government (2023) The future of road investment in Wales. Available from: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-02/the-future-road-investment-wales.pdf.

31. Welsh Government (2022) National Survey for Wales: April 2021 to March 2022. Available from: https://www.gov.wales/national-survey-wales-april-2021-march-2022.

32. Scott C, Sutherland J, Taylor A (2018) Affordability of the UK's Eatwell Guide. The Food Foundation. Available from: https://foodfoundation.org.uk/sites/default/files/2021-10/Affordability-of-the-Eatwell-Guide_Final_Web-Version.pdf.

33. Welsh Government (2022) A healthier Wales: long term plan for health and social care. Available from: https://www.gov.wales/healthier-wales-long-term-plan-health-and-social-care.

34. Public Health Wales (2023) Alcohol. Available from: https://phw.nhs.wales/topics/alcohol/.

35. Edmiston D et al.(2022) Falling faster amidst a cost-of-living crisis. Runnymede Trust. Available from: https://www.runnymedetrust.org/publications/falling-faster-amidst-a-cost-of-living-crisis-poverty-inequality-and-ethnicity-in-the-uk.

36. Welsh Government (2023) Anti-racist Wales Action Plan. Available from: https://www.gov.wales/anti-racist-wales-action-plan.

37. NHS Wales (2022) Wales COVID-19 Vaccination Enhanced Surveillance. . Available from: https://www2.nphs.wales.nhs.uk/CommunitySurveillanceDocs.nsf/3dc04669c9e1eaa880257062003b246b/e61c928e715ece3180258680003449c3/$FILE/Wales%20COVID-19%20vaccination%20enhanced%20surveillance%20-%20equality%20report.pdf.

38. Munro A, Boyce T, Marmot M et al. (2020) Sustainable Health Equity: Achieving a Net-Zero UK. Institute of Health Equity. Available from: https://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/sustainable-health-equity-achieving-a-net-zero-uk/main-report.pdf.

39. Welsh Government (2022) Welsh Government Net Zero strategic plan. Available from: https://www.gov.wales/welsh-government-net-zero-strategic-plan.

40. Public Health Wales (2020) Air pollution and health in Wales. Available from: https://phw.nhs.wales/services-and-teams/environmental-public-health/air-quality/air-pollution-and-health-fact-sheet/.

41. Public Health Wales (2018) Making a Difference: Reducing health risks associated with road traffic air pollution in Wales. Available from: https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/08/PHW-Air-pollution-report-final-English.pdf.

42. Welsh NHS Confederation (2021) Making the difference: Tackling health inequalities in Wales. Available from: https://www.nhsconfed.org/system/files/2021-05/Making%20the%20difference%20-%20April%202021.pdf.

43. Welsh Government (2019) Prosperity for all, economic action plan. Available from: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-02/prosperity-for-all-economic-action-plan.pdf.